Erthygl 10 Pwyllgorau a Fforymau Rhanbarthol

10.1 PWYLLGORAU RHANBARTHOL

10.1 Mae Pwyllgorau Rhanbarthol yn rhan annatod o strwythur wleidyddol y Cyngor Sir. Maent yn cynnwys pob cynghorydd sir dros ardal ddaearyddol benodol. Maent yn cyfarfod yn gyson a gwahoddir aelodau enwebedig o gynghorau tref a chymuned i wasanaethu ar Bwyllgorau Rhanbarthol fel aelodau heb bleidlais. Bydd pob Pwyllgor Rhanbarthol yn datblygu ac yn cynnal Rhaglen Gwaith Cychwynnol.

10.2 Mae Pwyllgorau Rhanbarthol yn gyfle i ddod â dimensiwn lleol i waith y Cyngor Sir, cyfrannu at rôl arweinyddiaeth y cynghorwyr sir o fewn y gymuned, a dwyn blaenoriaethau lleol i sylw'r Cyngor Sir.

10.3 Mae cylch gwaith Pwyllgorau Rhanbarthol fel a ganlyn

10.2 PWERAU GWNEUD PENDERFYNIADAU

i. Dyrannu cyllidebau ardaloedd lleol yn unol â chyfarwyddyd y cytunwyd arno.*
ii. Dyrannu grantiau cist gymunedol a rheoli agweddau anweithredol ar y rhaglen cist gymunedol.*
iii. Enwi strydoedd yn unol â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg
iv. Gorchmynion gwarchod coed
v. Gorchmynion traffig ffyrdd (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â pharcio oddi ar y stryd)*
vi. Gorchmynion cau pen ffordd, gorchmynion ffyrdd ymyl, gorchmynion hawliau tramwy cyhoeddus, mabwysiadu priffyrdd.

D.S

(i) Mae hyn yn dynodi swyddogaeth bwrdd gweithredol a ddirprwyir i bwerau'r Pwyllgorau Rhanbarthol
(ii) Yn gyffredinol, ymdrinnir â'r materion sy'n dod o dan Eitemau (iii), (iv), (v) a (vi) drwy eu dirprwyo i sylw'r swyddog priodol drwy ymgynghori â'r aelodau lleol ac eithrio pan fo gwrthwynebiad o du'r cyhoedd. Mewn achosion felly fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Rhanbarthol am benderfyniad.
(iii) Hysbysiadau Gwaredu Cloddiau yn ddarostyngedig i gylch gwaith y Pwyllgor Cynllunio.

10.3 PWERAU MONITRO

i. Mynd ati i archwilio pa mor effeithiol yw dynodyddion perfformiad allweddol yr ardal a'r modd y darperir gwasanaethau yn eu hardaloedd yn unol â phrotocolau penodol.
ii. Gydag (i) uchod, cyfrannu at ddatblygiad parhaus dynodyddion perfformiad yn ôl ardal.
iii Yn unol ag (i) a (ii) uchod gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau, a gofyn am adroddiadau ar ddiffygion a ganfyddir a'r modd y gellid unioni'r diffygion hynny yn unol â phrotocolau penodol.
iv Ymateb i geisiadau gan Bwyllgorau Craffu am ddarparu persbectif lleol i Raglen

Cymru ar gyfer Gwella / Adolygiadau Gwasanaeth Gwerth Gorau fel sy'n briodol.

v. Monitro'r modd y gweithredir Polisïau Corfforaethol a Pholisïau Gwasanaeth sydd ag elfen leol megis Diogelwch Cymunedol/Troseddu ac Anhrefn, Agenda 21 Lleol, Rheoli Gwastraff, Cynllun Datblygu Unedol (CDU) ac ati.

vi. O ran (v) uchod, cyfrannu'n weithgar at y Grwpiau Gweithredu Lleol ar Ddiogelwch Cymunedol gan glustnodi materion diogelwch cymunedol lleol mewn partneriaeth, a mynd â'r maen i'r wal o ran rhoi'r cynlluniau gweithredu ar waith.

10.4 SWYDDOGAETHAU CYNRYCHIOLI

i. Cyflwyno sylwadau ar fuddiannau'r ardal i'r Cyngor ac i'r Bwrdd Gweithredol drwy'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gydgysylltu Rhanbarthol, a chyfleu gwybodaeth i, a phenderfyniadau o'r, strwythur penderfynu canolog.

ii. Cynnal a datblygu cysylltiadau agos â'r Cynghorau Tref a Chymuned yn eu hardaloedd.

iii. O ran (ii) cynnal cyfarfodydd ymgynghorol blynyddol â'r Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn trafod materion sy'n effeithio ar yr ardal neu'r Sir yn gyfan a sicrhau y cymerir camau priodol i brosesu'r materion a glustnodir.

iv. Sefydlu a chynnal cysylltiadau agos â'r Fforymau Rhanbarthol ac â'r cyrff sy'n gweithio yn y gymuned leol.

10.5 YMGYNGHORI

i. Penderfyniadau rheoli nad ydynt yn addas i'w dirprwyo i'r swyddogion ynghylch perfformiad a darparu cyfleusterau hamdden a diwylliannol lleol lle nad oes goblygiadau strategol na goblygiadau ariannol/cyllidebol.

ii. Adroddiadau ar y camau a gymerwyd o ran rhaglenni adfywio lleol. Y Bwrdd Gweithredol fydd yn parhau i drafod y goblygiadau o ran adnoddau.

iii. Cynigion ynghylch prydlesu / gwaredu tir ac adeiladau a gedwir yn benodol ar gyfer datblygu diwydiannol, lle bo hyn yn cydymffurfio â'r polisi corfforaethol (DS. Bydd trefniadau gosod dros dro yn dal i gael eu gweithredu o dan y pwerau a ddirprwyir i'r swyddogion).

iv. Ymgynghori'n flynyddol ar gynigion o ran y cynlluniau a gynhwysir yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

v. Bod yn fforwm ar gyfer ymgynghori â phartneriaid allweddol a'r cyhoedd ar amrywiaeth o faterion priodol.

10.6 TEITLAU'R PWYLLGORAU RHANBARTHOL A NIFER YR AELODAU

10.6.1 Y 5 Pwyllgor Rhanbarthol yw:-

- Aman 12 aelod
- Gwendraeth 12 aelod
- Llanelli 23 aelod
- Taf Myrddin Teifi 18 aelod
- Tywi Gwili 9 aelod